# GRŴP TRAWSBLEIDIOL SENEDD CYMRU – CWRW A THAFARNDAI

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cofnodion

Dydd Llun 22 Ebrill 2024, am 12.30
Dros Zoom

1 Yn bresennol: Jack Sargeant AS (Cadeirydd), Mike Hedges AS, Hannah McCarthy (ar ran Carolyn Thomas AS)
Ysgrifenyddiaeth: Barry Watts, Rita King, Paul Edgeworth
Gwesteion: James Hawkins Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (BBPA), Torrin MacLauchlan (BBPA)
Ymddiheuriadau: James Evans AS, Llyr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Cen Hayward (Clwstwr Cwrw Cymru), Oliver Robinson (Robinsons Brewery)

2 Ailethol swyddogion:

Cafodd Jack Sargent AS ei ailethol yn Gadeirydd. Cafodd ei enwebu gan James Evans, ei gynnig gan Mike Hedges, a'i eilio gan Hannah McCarthy.

3 Penodi'r Ysgrifenyddiaeth:

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid penodi CAMRA, Cymdeithas y Bragwyr Annibynnol (SIBA), a'r Grŵp Seneddol Hollbeidiol ar Gwrw i ddarparu gwasanaethau ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig hwn gan Mike Hedges.

Cofnododd y Grŵp eu diolchiadau i John Pockett, a oedd wedi darparu gwasanaethau ysgrifenyddol ar gyfer y grŵp am nifer o flynyddoedd, gan ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddo.

4 Adroddiad ar Weithgareddau yn 2023:

Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth adroddiad ar weithgareddau'r Grŵp Trawsbleidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi'r eitemau a ganlyn:

- Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Mai 2023, pan fu Craig Hoy MSP, Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol yr Alban ar Gwrw a Thafarndai, yn bresennol
- Ymweliad y Cadeirydd ag un o dafarndai cwmni Robinsons ger Wrecsam ym mis Gorffennaf 2023. Nod yr ymweliad oedd casglu gwybodaeth am yr heriau a fydd yn codi yn sgil y cynigion ynghylch cynlluniau dychwelyd ernes
- Yr ymweliad â bragdy Mad Dog yng Nghaerdydd, a gafodd ei aildrefnu o fis Mehefin 2023 i fis Chwefror 2024

5 Gweithgareddau arfaethedig y Grŵp Trawsbleidiol yn 2024

Cynigiodd yr Ysgrifenyddiaeth nifer o weithgareddau amrywiol y byddai modd eu trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Cinio'r Cadeirydd neu ddigwyddiad Bord Gron
- Sesiwn ar gyfer blasu Cwrw Cymreig
- Cwis Tafarn Seneddol
- Ymweliad â bragdy (yn gynnar yn 2025)

Bydd y Cadeirydd yn gwneud gwaith dilynol gyda'r Ysgrifenyddiaeth ar y materion a ganlyn yn benodol:

- Cinio'r Cadeirydd: Mae'r Cadeirydd yn awyddus i gynnal digwyddiad o'r fath. Bydd yn mynd at Huw Irranca-Davies AS, yr Ysgrifennydd Cabinet sy'n gyfrifol am fwyd a diod, i ofyn a fyddai'n fodlon bod yn bresennol;
- Sesiwn ar gyfer blasu Cwrw Cymreig: Mae hwn bob amser yn ddigwyddiad poblogaidd.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai cyfarfodydd gweinidogol hefyd yn cael eu trefnu ar faterion allweddol, fel y bo'n briodol – er enghraifft, cynlluniau dychwelyd ernes

6 Unrhyw fater arall

Cynlluniau dychwelyd ernes

Yn ôl Barry Watts, disgwylir cyhoeddiad yn ddiweddarach yr wythnos hon ynghylch oedi posibl o ran yr amserlen ar gyfer gweithredu cynlluniau dychwelyd ernes, o 2025 i 2027. Ar hyn o bryd, mae gwydr yn parhau i fod o fewn cwmpas y cynigion yng Nghymru, er ei fod wedi'i ddileu o gwmpas y cynigion yn Lloegr ac yn yr Alban.

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai modd cyflwyno cwestiwn yn y Senedd ar y mater hwn, a hynny ar adeg briodol ar ôl i'r cyhoeddiad ynghylch yr amserlen gael ei wneud.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50.